


# Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Canllaw gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# Rhagarweiniad

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Addysgol Arbennig wedi dechrau newid. Bydd y newid yn cael ei gynnal dros gyfnod o dair blynedd a bydd y term Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei ddisodli gyda'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd yn disodli'r term Anawsterau Dysgu ac Anableddau hefyd. Fel rhan o'r newidiadau hyn, bydd pwyslais ar ddyheadau uchel a chanlyniadau gwell i bob plentyn a pherson ifanc gydag ADY.

Ar gyfer y mwyafrif o blant a phobl ifanc, gellir diwallu eu hanghenion drwy ansawdd dysgu ac addysgu uchel. Dylai pob sefydliad addysgol roi addysgu gwahaniaethol ar waith, neu unrhyw gefnogaeth arall a dargedwyd i helpu disgyblion ddangos cynnydd, lle bo'n briodol. Serch hynny, bydd gan nifer llai o blant a phobl ifanc ADY, sy'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Mae'r Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, yn ychwanegol neu'n wahanol i ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant, sydd yn gyffredinol ar gael i bawb. Gelwir y dull o esbonio sut rydym yn diwallu anghenion eich plentyn yn ymateb raddedig.

# Beth mae hyn oll yn ei olygu?

O fis Medi 2021, disodlodd Anghenion Dysgu Ychwanegol y term Anghenion Addysgol Arbennig, a bydd yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed, sydd ag anghenion sy'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

Mae gan unigolyn anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddi neu ganddo anhawster neu anabledd dysgu (os yw'r anhawster neu anabledd dysgu ddeillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae'n bwysig cofio bod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, ac efallai bydd eu hanghenion yn newid dros amser. Drwy gylchred parhaus o nodi anghenion a rhannu gwybodaeth, cynllunio, cymryd camau gweithredu ac adolygu cynnydd, gellir nodi gwahanol gefnogaeth a'i darparu fel bo'n angenrheidiol. Gellir cynyddu, lleihau neu newid y gefnogaeth dros amser, yn unol â chynnydd unigol eich plentyn. Mae hyn yn golygu y gellir ailymweld â phenderfyniadau a chamau blaenorol, eu mireinio a'u hadolygu i helpu gyda chyflawni dealltwriaeth well o'ch plentyn. Mae'n eu cefnogi hefyd wrth ddangos cynnydd a'u helpu i wireddu ei gobeithio a'u dyheadau.



# Y Blynyddoedd Cynnar

Os yw'n cael ei bennu bod gan blentyn nad yw o oedran ysgol gorfodol eto ADY, ac nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddiogelu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, ac ysgrifennu eu Cynllun Datblygu Unigol. Mae gan yr Awdurdod Lleol Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar, y gellir cysylltu â hwy am gyngor a chefnogaeth.

# Disgyblion o Oedran Ysgol

Ar gyfer plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir, yr athro dosbarth neu'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yw'r pwynt cyswllt cyntaf. Byddant yn gallu gwrando ar eich pryderon, ac os gofynnir, dechrau ystyried os oes gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gwneir y penderfyniad hwn o fewn 35 diwrnod ysgol, oni bai bod angen asesiad arbenigol pellach ar yr ysgol drwy'r Awdurdod Lleol neu'r Gwasanaethau Iechyd, ac os byddant, efallai bydd angen 7 wythnos arall.

# Sefydliadau Addysg Bellach

Bydd pobl ifanc sy'n cael mynediad i Fenter Cyflogaeth Deuluol sydd ag ADY yn cael eu hanghenion wedi'u nodi gan ddarparwr y Fenter i ddechrau. Mewn nifer bach o achosion cymhleth iawn, efallai bydd y Fenter yn atgyfeirio person ifanc (gyda'u caniatâd) ar Awdurdod Lleol am gyngor a chefnogaeth bellach.

# Darpariaeth Gyffredinol

Darpariaeth Gynhwysol yw'r enw a roddir ar y ddarpariaeth, sydd fel arfer ar gael i bob plentyn a pherson ifanc, ac efallai caiff ei ddarparu ar lefel dosbarth cyfan, grŵp bach neu unigolyn. Caiff ei fonitro a'i olrhain yn unol â gweithdrefnau'r ysgol a gallai fod yn ddarpariaeth tymor byr neu hirdymor.

# Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Os nad yw plentyn neu berson ifanc yn ymddangos fel eu bod yn dangos cynnydd, yna efallai bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys nodi anghenion y disgybl mewn dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac a allai arwain at ddarpariaeth gwell ac amgen yn cael ei ddarparu i gefnogi'r disgybl i ddangos cynnydd. Mae plant a phobl ifanc sy'n cael mynediad i Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn cael eu dosbarthu fel cael ADY, ac o ganlyniad bydd angen CDU arnynt.

# Cynllun Datblygu Unigol

Mae Cynllun Datblygu Unigol neu CDU, yn disodli Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig, ac mewn rhai achosion Cynlluniau Addysgol Unigol. Bydd y cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac efallai'n cynnwys sawl asiantaeth, gan sicrhau bod y plentyn a'r person ifanc wrth galon proses cynllunio eu darpariaeth.

Bydd CDU yn cael eu cyflwyno cam wrth gam dros y tair blynedd nesaf y dilyn amserlen Llywodraeth Cymru, wrth i'r Datganiadau a'r Cynlluniau Addysg Unigol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd dderbyn adolygiad. Bydd cynlluniau'n cael eu hadolygu'n flynyddol o leiaf, a byddant yn cael eu creu gyda'r plentyn neu'n person ifanc, a'u rhieni/gofalwyr neu eiriolwr. Gellir eu hadolygu os yw'r wybodaeth neu'r anghenion yn newid hefyd, ar gais y plentyn, person ifanc neu riant/gofalwr.

Dyluniwyd y CDU hyn i amlinellu ADY plentyn neu berson ifanc, eu dyheadau a thargedau i gyflawni'r rhain. Mae angen CDU ar unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Bydd y mwyafrif o'r CDU hyn yn cael eu hysgrifennu a'u cynnal gan ysgolion, serch hynny, mewn achosion cymhleth, efallai bydd ysgolion yn gwneud cais bod yr Awdurdod Lleol yn ystyried anghenion y plentyn neu'r berson ifanc. Os canfyddir bod yr anghenion yn gymhleth ac angen mewnbwn arbenigol, efallai bydd yr Awdurdod Lleol yn ysgrifennu ac yna'n cyfeirio'r ysgol i gynnal y cynllun, neu ei gynnal eu hunain.

Gall rhieni a phobl ifanc wneud cais i ailystyried rhai penderfyniadau maent yn anghytuno gyda nhw:

1. ailystyried a oes gan blentyn ADY ai peidio;
2. ailystyried CDU ysgol gyda'r bwriad o ailymweld ag o;
3. pennu a ddylai'r Awdurdod Lleol gymryd cyfrifoldeb dros gynnal CDU;
4. ailystyried penderfyniad ysgol i orffen cynnal CDU.

Bydd plant nad ydynt o oedran ysgol gorfodol, ac nid ydynt yn mynd i ysgol a gynhelir gan yr ALl, sydd ag ADY ac angen CDU, yn cael hwn wedi'i ysgrifennu a'i gynnal gan yr Awdurdod Lleol, drwy Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar,

Mewn achosion o ADY ôl-16, bydd y darparwr addysg ôl-16 yn ysgrifennu a chynnal y CDU yn y mwyafrif o achosion, gan gyfeirio at yr Awdurdod Lleol yn unig mewn achosion cymhleth neu sawl ADY. Byddai hyn yn digwydd yn unig pan na fyddai'n rhesymol i ddarparwr addysg ôl-16 ddiogelu'r ddarpariaeth. Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ysgrifennu a chynnal CDU ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref, plant sy'n derbyn gofal, a disgyblion sydd wedi'i cofrestru'n ddeuol sydd wedi'u nodi fel bod ag ADY.



# Ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae Ymarfer sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn ganolog i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg, a’r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru. Maent yn canolbwyntio ar roi’r plentyn neu’r unigolyn ifanc wrth galon adnabod eu hanghenion, cynllunio eu darpariaeth ac adolygu hyn.

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth nodi beth sy’n bwysig iddynt, ac ar eu cyfer, wrth gynllunio eu darpariaeth ac amlinellu eu gobeithion a’u dyheadau, ac esbonio sut maent yn dymuno gwireddau’r rhain, i gyd yn rhan o ethos trosfwaol arferion canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dylai adolygiadau o CDU gael eu cynnal mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a gall ysgol eu plentyn ddarparu gwybodaeth neu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch hyn.

# Beth i’w wneud os nad ydych chi’n hapus gyda phenderfyniad

Os nad ydych yn hapus gyda phenderfyniad ysgol ynghylch ystyriaeth ADY, gallwch ofyn i’r Awdurdod Lleol ailystyried y penderfyniad hwn. Cyn gwneud hynny, byddwn yn argymell eich bod yn trafod eich pryderon gydag ysgol eich plentyn. Ar ôl y drafodaeth, os ydych chi dal i fod yn anfodlon, gallwch gysylltu â’r Awdurdod Lleol i wneud cais am ail ystyriaeth drwy anfon neges e-bost i’r cyfeiriad canlynol: ALN@wrexham.gov.uk.

Gall y cyfnod ailystyried gymryd hyd at saith wythnos. Yn ystod ail ystyriaeth, bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu’r wybodaeth a ddefnyddiodd yr ysgol i ddod i benderfyniad, a gallant bennu eu bod yn cytuno neu’n anghytuno gyda phenderfyniad yr ysgol. Os yw’r Awdurdod Lleol yn anghytuno, gallant gyfeirio’r ysgol i un ai ysgrifennu a chynnal CDU ar gyfer y plentyn neu’r person ifanc, neu ddiwygio’r fersiwn gyfredol.

Os nad ydych chi’n fodlon gyda phenderfyniad yr Awdurdod Lleol ynghylch yr ADY, mae gennych hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg (Cymru). Bydd rhaid gwneud unrhyw apêl erbyn y diwrnod gwaith cyntaf o fewn wyth wythnos o benderfyniad yr Awdurdod Lleol. Os yw’r gwasanaethau datrys anghydfod sydd wedi’u nodi isod yn cael eu defnyddio, mae’r terfyn amser ar gyfer apelio’n cael ei ymestyn o wyth wythnos ychwanegol.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am Dribiwnlys Addysg (Cymru) drwy ymweld â’r wefan ganlynol: https://tribiwnlysanghenionaddysgolarbennig.llyw.cymru/

# Eiriolaeth a Datrys anghydfod

Os hoffech chi gyngor annibynnol, eiriolaeth canllawiau a chefnogaeth, gallwch gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth a Chefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n cael ei ddarparu gan SNAP Cymru. Gellir cysylltu â SNAP Cymru drwy un o'r ffyrdd canlynol:

Gwefan: https://www.snapcymru.org/contact
Ffôn: **0808 801 0608**

Mae Gwasanaeth Datrys Anghydfod ar gael hefyd, sy'n cael ei ddarparu gan SNAP Cymru. Cewch wybodaeth am hyn gan eich cydlynydd dirprwyol, neu drwy gysylltu â SNAP Cymru'n uniongyrchol. DRS@snapcymru.org.

Cyngor Sir y Fflint
Addysg ac Ieuenctid
Neuadd y Sir
Raikes Lane
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB
ALN@flintshire.gov.uk
01352 752121